

Y Côt Cefn Gwlad

Cadwch at y Côt Cefn Gwlad bob amser a chofio'r canlynol:

Parchu pobl eraill

- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch bob giât ac eiddo fel rydych yn eu canfod nhw
- Cadwch at lwybrau a thraciau sydd wedi'u marcio

Gwarchod yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol, ac ar dennyn yn ystod tymor nythu'r adar (Ebrill-Gorffennaf)
- Peidiwch byth â chasglu nad adwreiddio planhigion

Mwynhau'r awyr agored

- Cynllunio ymlaen llaw a bod yn barod
- Cadw at gyngor ac arwyddion lleol

Mae app 'Nature Finder' yr Ymddiriedolaethau Natur ar gael i ffonau Android ac iPhone. Mae yn cynnwys map o mwy na 2000 o warchodfeydd natur, manylion o ddigwyddiadau Ymddiriedolaeth Natur trwy y DU, a gwybodaeth ar mwy na 900 o rywogaethau a chynefinoedd.

www.wildlifetrusts.org/app

The Wildlife Trusts' 'Nature Finder' app is available for Android and iPhones. It contains a map of more than 2000 nature reserves, details of Wildlife Trust events around the UK, and information on more than 900 species and habitats.

Countryside Code

Please follow the Countryside Code and always remember to:

Respect other people


- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them
- Keep to marked paths and trails

Protect the natural environment

- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs under effective control
- Never pick or uproot plants

Enjoy the outdoors

- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs



Mae'r warchodfa 1km i'r dwyrain o Afonwen, Sir y Fflint, ar yr A541 rhwng yr Wyddgrug a Dinbych. Wrth fynd tua'r dwyrain, trowch i'r chwith oddi ar yr A541 wrth Gapel y Ddôl a dilynwch y lôn am 400m. Trowch i'r chwith yn y gyffordd – mae'r fynedfa a'r maes parcio (SJ 142 713) ar y chwith gyferbyn â'r Felin.

The reserve is 1 km east of Afonwen, Flintshire, on the A541 between Mold and Denbigh. Heading E, turn L off the A541 at Y Ddôl Chapel and follow the lane for 400m. Turn L at the junction – the entrance and car park (SJ 142 713) are on the L opposite The Mill.

Rydyn ni'n elusen annibynnol, leol sy'n dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion eraill. **Plis helpwch ni os yw hynny'n bosib.**

- **Dod yn aelod** am ddim ond ychydig bunnoedd bob mis
- **Gwirfoddoli** yn un o'n 30+ o warchodfeydd natur
- **Ystyried gadael Rhodd Fyw** - byddai rhodd yn eich Ewyllys, boed fach neu fawr, yn gadael ôl eich troed ar ein tirwedd am byth

We are an independent, local charity, reliant on the support of our members and other donations. **Please help us if you can.**

- **Become a member** for just a few pounds per month
- **Volunteer** at one of our 30+ nature reserves
- **Consider a Living Legacy** – a gift in your Will, whether small or large, would leave your footprint in our landscape forever

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

North Wales Wildlife Trust

376 Stryd Fawr / High Street,
Bangor, Gwynedd, LL57 1YE
01248 351541

nwwt@wildlifetrustswales.org
www.northwaleswildlifetrust.org.uk

Rhif elusen / Charity number: 230772
Rhif cwmni / Company number: 773995




Gwarchodfa Natur Y Ddôl Uchaf Nature Reserve




Gwarchod Natur ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future






Gwarchodfa Natur Y Ddôl Uchaf Nature Reserve


Gogledd North



50m



	Llwybr / Footpath
	Coedtir / Woodland
	Glaswelltir / Grassland
	Prysg / Scrub
	Dŵr agored / Open water



Mae'r daith gylich fer o amgylch Y Ddôl Uchaf yn hawdd ei cheredd, ond weithiau'n wlyb a mwdlyd ar ôl glaw. Ar hyn o bryd mae'r safle'n anaddas i gadeiriau olwyn, gyda stepiau mewn manau. Cadwch at y llwybr. Nid oes giât ar y brif fynedfa; mae'r mynedfeydd eraill dros gamfa neu drwy giât i gae.

The short circular walk around Y Ddôl Uchaf is easy walking, though sometimes wet and muddy after rain. The site is currently unsuitable for wheelchairs, with steps in places. Please keep to the path. The main entrance is un-gated; other entrances are via a stile or field gate.



Draenen ddu / Blackthorn

Mae'r Ddôl Uchaf ar waddod o dwffa o bwysigrwydd cenedlaethol yn Nyffryn Chwiler. Mae'r gwaith chwarelu yma wedi creu tir afreolaidd o byllau a thomenni gwastraff sydd, erbyn heddiw, yn gartref i amrywiaeth fawr o gynefinoedd mewn ardal fechan.

Y Ddôl Uchaf (the Upper Meadow) lies upon a nationally important deposit of tufa within the Chwiler Valley, where quarrying activities have created an irregular terrain of pits and spoil heaps that today supports a variety of habitats in a small area.



*Telor penddu
Blackcap*

Calchfaen meddal iawn a mandyllog yw twffa, a ffurfir pan mae calsiwm carbonad yn gwaddodi allan o ddŵr sy'n llifo. Oddi tano mae marl, llaid calchaidd anhydraidd sy'n dal dŵr ar yr arwyneb ac mae hynny wedi arwain at sefydlu sawl pwll yn y warchodfa. (Y ddaearog anarferol yma yw'r rheswm dros ddynodi'r safle'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.) Gellir gweld tystiolaeth o ffurfio twffa yn yr afon sy'n llifo drwy'r safle, Afon Pant-gwyn, lle mae'r calsiwm carbonad wedi gwaddodi allan o ddŵr yr afon a ffurfio crwst calchaidd o amgylch y rhwystrau tanddwr, fel boncyffion. Yn yr un modd, mae teimlad graeanog i ddail y planhigion rhawn yr ebol sydd i'w canfod yn y pyllau, oherwydd y gwaddod ar eu harwyneb.



Llyffant dafadennog / Common toad

Tufa is a very soft, porous limestone, formed when calcium carbonate precipitates out of flowing water. It is underlain by marl, an impermeable calcareous mud which traps water at the surface and has resulted in several ponds becoming established on the reserve. (This unusual geology is the reason for the site's Site of Special Scientific Interest designation.) Evidence of active tufa formation can be seen in the river that flows through the site, the Afon Pant-gwyn, where calcium carbonate has precipitated out of the river water and formed a calcareous encrustation around submerged obstacles such as logs. Similarly, the leaves of the stonewort plants found submerged in the ponds have a gritty feel due to the deposition on their surfaces.



Siglen lwyd / Grey wagtail

Mae'r pyllau'n gartref i dair madfall frodorol (cribog mawr, llyfn a phalffaid) yn ogystal â llyffantod, brogaod a nadroedd y gwair. Yn ystod y gaeaf, caiff rhai o'r pyllau eu clirio gyda llaw i sicrhau eu bod yn parhau'n ddŵr agored sy'n cael ei ffafrio gan fadfallod ar gyfer eu carwriaethau yn y gwanwyn. Gellir gweld bronwen y dŵr a'r siglen lwyd yn bwydo o amgylch Afon Pant-gwyn ac, yn ystod mis Mai, mae cymylau o gylion Mai'n llenwi'r awyr am gyfnod byr, yn eu llawn dwf fel oedolion i fagu. Mae'r afon hefyd yn gartref i'r brithyll afon a physgod eraill; ysglyfaeth i'r dyfrgi yn sicr (a fagodd ar y safle unwaith). Mae'r ddaearog sylfaenol, a hefyd y pyllau, y ffynhonnau a'r afon, yn cyfrannu at amgylchedd llaith llawn calsiwm sy'n gartref i fwy na 40 o rywogaethau o folysgiaid.

The ponds host all three native newt species (great-crested, smooth and palmate) as well as common frogs, toads and grass snakes. During the winter, some of the ponds are carefully dredged by hand to ensure they retain the open water favoured by newts for their springtime courtship displays. Dippers and grey wagtails can be seen feeding around the Afon Pant-gwyn and, during May, clouds of mayflies fill the air for a short period in their adult form to breed. The river is also home to brown trout and other fish; no doubt preyed upon by otter (which once bred on site). The underlying geology, combined with the ponds, springs and river, contributes to a damp, calcium-rich environment which supports over 40 species of mollusc.

Mae'r glaswelltir calchaid wedi datblygu ar yr hen weithfeydd marl ac mae'n werthfawr am ei gyfoeth o fflora, gan gynnwys meillion melyn, briallu Mair sawrus, eurinllys mandyllog, erwain a'r tegeirian brych cyffredin. Gellir gweld tegeirianau eraill yma yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf weithiau hefyd, gan gynnwys tegeirian cors y de, y tegeirian pigfain a'r tegeirian pèr. Ond yn nes ymlaen yn yr haf mae rhywogaeth brin iawn yn ymddangos: brial y gors. Mae ei flodau gwyn hyfryd yn harddu'r ardaloedd o laswelltir llai ond mae'n cael ei guddio'n hawdd gan lystyfiant arall cryfach. Bob hydref, mae'r glaswelltir yn cael ei dorri a'i gribinio er mwyn cynnal ei gymeriad llawn rhywogaethau.



Brial y gors
Grass-of-Parnassus

Calcareous grassland has developed on the old marl workings and is valuable for its rich flora, including kidney vetch, cowslips, perforate St John's wort, meadowsweet and common spotted-orchid. Other orchids can sometimes be found in June and July, including southern marsh-orchid, pyramidal orchid and fragrant-orchid, but the true rarity appears only later in summer: grass-of-Parnassus. Its beautiful white flowers grace the dampest grassland areas, but are easily crowded out by other, more robust vegetation. Each autumn, the grassland is cut and raked to maintain its species-rich character.

Mae'r rhan fwyaf o'r safle wedi'i orchuddio gan goetir eilaidd sy'n cynnwys sycamorwydd, ynn a helyg y geifr, gydag isdyfiant o gyll, drain gwynion ac ysgaw. Mae rhywogaethau ychwanegol wedi cael eu plannu hefyd, i ychwanegu amrywiaeth, gan gynnwys pisgwydd dail bychain, ffawydd a chastanwydd y march. Pan mae golau'n cyrraedd llawr y goedwig, gellir gweld llu o lygad Ebrill a briallu. Mae un rhywogaeth arall yn llawer llai cyffredin: y pathew, sy'n brin oherwydd y dirywiad cenedlaethol yn y cynefinoedd sy'n addas iddo, fel coetiroedd gyda llawer o haenau o lwyni a gwrychoedd a reolir yn dda. Gellir gweld tystiolaeth o'i bresenoldeb mewn plisg cnau cyll gwag gyda thwll taclus, crwn gydag ymyl sbirol wedi'i gnoi yn yr ochr. Mae'r Ymddiriedolaeth Natur wedi monitro nifer y pathewod yn fanwl ers 2000 gyda help gan wirfoddolwyr. Mae'r adar magu'n amlycach yn y gwanwyn: rhywogaethau cyffredin fel y titw tomos las, y titw mawr, y titw cynffon hir, telor y cnau, dryw, robin ac aderyn du yn llenwi'r awyr gyda chàn. Mae adar mudol yr haf, fel y telor penddu a'r siff saff, yn ffafrio cysgod y coetir a'r prysgwydd ble maent yn nythu'n agos at y ddaear. Mae cŵn busneslyd yn gallu aflonyddu yn rhwydd (ac yn drasig) ar y rhain.

Most of the site is covered by secondary woodland comprising sycamore, ash and goat willow, with an understorey of hazel, hawthorn and elder. Additional species have also been planted to add variety, including small-leaved lime, beech and horse chestnut. Where light reaches the woodland floor, lesser celandine and primrose can be abundant. Distinctly less common is another resident: the dormouse, rare because of a national decline in suitable habitats such as woodlands with an abundant shrub-layer and well-managed hedgerows. Evidence of its presence can be found in hazelnut shells with a neat, round, spiral-edged hole gnawed in the side. The Wildlife Trust has monitored dormouse numbers closely since 2000 with help from volunteers. More noticeable in spring are the breeding birds: common species like blue tit, great tit, long-tailed tit, nuthatch, wren, robin and blackbird fill the air with song. Summer migrants such as blackcap and chiffchaff favour the cover of the woodland and scrub where they nest close to the ground and can easily (and tragically) be disturbed by inquisitive dogs.



Pathew / Dormouse



*Cnau cyll
wedi eu
cnoi gan bathew
Dormouse-gnawed
hazelnuts*

Rheolir y coetir yn achlysurol drwy greu llenyrrch newydd a thocio coed i roi mwy o amrywiaeth oedran a strwythur er budd planhigion y ddaear, adar a phathewod. Mae pren marw'n cael ei adael i sefyll a phydru, gan ffurfio rhan hanfodol o'r ecosystem ble mae infertebrata a ffyngau'n helpu i adfer y maethynnau i'r coetir drwy ddadelfennu'r pren.

The woodland is periodically managed by creating new glades and coppicing trees to provide a variety of age and structure to benefit ground flora, birds and dormice. Standing dead wood and timber is left to decay, forming an essential part of the ecosystem where invertebrates and fungi help return nutrients to the woodland by decomposing the wood.